Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Ystafell Bwyllgor 3A, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 8 Ionawr 2018 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| M Durke | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| D W Helliwell | T J Hennegan | C A Holley |
| B Hopkins | P Jones | E J King |
| I E Mann | G J Tanner | |

| Aelodau Cyfetholedig | Aelodau Cyfetholedig | Aelodau Cyfetholedig |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | P M Black | P R Hood-Williams |
| J W Jones | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Sarah Caulkin | Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: S E Crouch, J P Curtice, C R Evans, M Sykes a W G Thomas

---

## 81 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 82 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 83 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir.

## 84 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 85 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Yr Arweinydd/Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth (y Cynghorydd Rob Stewart)

Cyflwynodd yr Arweinydd/Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth anerchiad llafar i ddilyn yr adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd.

Tynnodd yr Arweinydd sylw penodol at y canlynol: -

- Adfywio'r ddinas
  - Canol Abertawe
  - Ffordd y Brenin
  - Sgwâr y Castell
  - Stryd Mariner
  - Nenlinell
- Y Fargen Ddinesig
- Cyllideb
- Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Roedd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro'n bresennol hefyd i gynorthwyo'r sesiwn holi ac ateb.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau â'r Arweinydd yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Argaeledd cynllun busnes ar gyfer yr arena a'r cytundeb â'r Ambassador Theatre Group
- Natur gystadleuol yr arena a'r perfformwyr y bydd yr arena'n debygol o'u denu
- Digonedd o westai i ddarparu ar gyfer ymwelwyr ychwanegol ag Abertawe
- Y Fargen Ddinesig – Datblygu Cytundeb Gweithio ar y Cyd, a chyflwyno cynlluniau busnes er mwyn defnyddio cyllid
- Ariannu/llywodraethu prosiectau trawsbynciol megis y Fenter Sgiliau a Doniau
- Cyfranogaeth colegau/prifysgol a diwydiant yn y Fenter Sgiliau a Doniau
- Y berthynas rhwng egwyddorion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a Chynllun Corfforaethol y cyngor – awgrym i gynnwys yr amgylchedd naturiol/bioamrywiaeth yn y Cynllun Corfforaethol er mwyn adlewyrchu cynllun 'Gweithio gyda Natur' y BGC
- Gwaith Copr yr Hafod-Morfa – effaith ar y warws a Safle Parcio a Theithio Glandŵr
- Morlyn Llanw – yn dal i aros am benderfyniad gan Lywodraeth y DU
- Parc Busnes Felindre – effaith cyfleoedd datblygu ar sefyllfa barcio bresennol y safle
- Panel Ariannu Allanol – cefnogaeth ar gyfer cyllid i Warchodfa Anifeiliaid Hillside
- Cyfarfodydd craffu ar y gyllideb sydd i ddod

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at yr Arweinydd, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 86 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad.

Fel Cynullydd y Panel, cyflwynodd y Cynghorydd Peter Black adroddiad am gynnydd Panel Craffu Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion. Aeth ati i fyfyrio ar y cyfarfodydd a gynhaliwyd ers mis Awst a thynnu sylw at rai o'r prif broblemau/bryderon yn y Gwasanaethau i Oedolion, er enghraifft o ran gofal cartref, blocio gwelyau, dyrannu pecynnau gofal a gorwario'r gyllideb.

Crybwyllodd aelodau'r pwyllgor faterion penodol o ran Cydlynwyr Ardaloedd Lleol a'r broses o werthuso'r rhain, Taliadau Uniongyrchol ac amlder taliadau/dulliau talu yn ogystal ag ailasesu anghenion gofal ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Black at gynllun gwaith y Panel a chytunodd i grybwyll y materion y tynnodd aelodau'r pwyllgor sylw atynt wrth swyddogion perthnasol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 87 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth o baneli a gweithgorau craffu. Ar ôl gwahodd mynegiannau o ddiddordeb gan gynghorwyr craffu i gyfranogi yn yr ymchwiliad i amgylchedd naturiol Abertawe, adroddwyd am yr aelodaeth arfaethedig i'r pwyllgor gytuno arni.

**Penderfynwyd** cytuno ar aelodaeth Panel Ymchwilio'r Amgylchedd Naturiol fel a ganlyn:

**Cynghorwyr Llafur:**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | **Peter Jones (CYNULLYDD)** |
| Yvonne Jardine | Hazel Morris |

**Cynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol/Annibynnol:**

| | |
|---|---|
| Wendy Fitzgerald | Jeff Jones |

**Cynghorydd y Ceidwadwyr:**

| | |
|---|---|
| Paxton Hood-Williams | |

**Cynghorydd Uplands:**

| | |
|---|---|
| Irene Mann | |

## 88 Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Effaith Chwarterol drafft Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar gyfer 2017/18.

Bwriad yr adroddiad oedd dangos cyflawniadau a chanlyniadau craffu, a'r effaith a'r gwahaniaeth a wnaed.

**Penderfynwyd** cytuno ar gynnwys yr 'Adroddiadau Craffu' drafft a'u cyflwyno i'r cyngor ar 25 Ionawr 2018.

## 89 Rhaglen Waith Craffu 2017/18.

Cyflwynodd y Cadeirydd y diweddaraf i'r pwyllgor am Raglen Waith Craffu 2017/18. Tynnwyd sylw at y canlynol: -

- Byddai'r Cynghorydd Mark Thomas, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd, yn mynd i gyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar gyfer y sesiwn holi ac ateb. Gofynnwyd i'r pwyllgor ofyn cwestiynau posib.
- Trefnwyd cyfarfod arbennig o Bwyllgor y Rhaglen Graffu ar gyfer 5 Mawrth 2018 at ddibenion Craffu ar Droseddu ac Anrhefn. Byddai cyd-gadeiryddion Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel yn dod i drafod perfformiad y bartneriaeth.
- Cyflwynwyd cais i ychwanegu'r Gwasanaeth Archifau at restr gweithgorau'r dyfodol yn y rhaglen waith.

Gan gyfeirio at Flaengynllun y Cabinet, cynigiodd y Cadeirydd hefyd gynnal craffu cyn penderfynu ar adroddiad y Cabinet am 'reoli rhandiroedd' sydd wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod y Cabinet ar 15 Chwefror.

**Penderfynwyd:** -

1) Ychwanegu adroddiad y Cabinet am 'reoli rhandiroedd' at agenda cyfarfod y pwyllgor ar gyfer 12 Chwefror;
2) Ychwanegu'r Gwasanaeth Archifau at Raglen Waith Craffu fel gweithgor yn y dyfodol.

## 90 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am lythyrau craffu. Cynhwyswyd gohebiaeth sy'n ymwneud â chraffu cyn penderfynu'r pwyllgor ar drefniadau prydles Stadiwm Liberty.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 91 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth)

Nodwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

## 92 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Nesaf Paneli/Gweithgorau.

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau

## 93 Gwahardd y Cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 14 Adran 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

## 94 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd y llythyrau craffu ynghylch dymchwel adeilad Oceana.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am ei gyfranogaeth yn y broses o ddymchwel yr adeilad a'r cyngor a ddarperir i'r cyngor.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.45 pm

**Cadeirydd**